

Wrth iddynt wneud cynnydd

Neidio Dros Jade

Adnoddau

- Marcwyr dros dro, marcwyr traed
- Ffyn mesur, tapiau mesur, sialc

Cwestiynau

- Sut penderfynoch chi ble i roi eich marciwr yn gyntaf?
- Beth wnaethoch chi i'ch marciwr ar ôl un neu ddwy naid?
- Beth sy'n eich helpu i neidio ymhellach?

Diogelwch a threfn

Sicrhewch:

- bod yr arwyneb yn lân ac yn rhydd o rwystrau
- bod yr arwyneb neidio'n gallu esmwytho'r glanio, e.e. trwy ddefnyddio matiau gymnasteg neu borfa
- bod y plant yn plygu eu pengliniau wrth lanio gan lanio fel pe baent yn gwneud 'naid broga'



Beth am 'Chwarae i Ddysgu'?

- Crëwch 'afon' i'r plant neidio drosti
- Anogwch y plant i ragweld ble gallant neidio dros yr 'afon' heb lanio yn y dŵr, neu ble gallant neidio o un ochr i'r llall mewn dwy naid, gan ddefnyddio carreg gamu, ac ati
- Gadewch i'r plant addasu eu rhagfynegiadau ar sail eu profiad
- Gosodwch farc i gofnodi neidiau gorau'r plant

Geiriau allweddol

- Rheolaeth, sgiliau cydsymud, cydbwysedd
- Neidio a glanio
- Neidio fel broga
- Rhagweld

Cyfleoedd i:

- neidio dros bellterau sy'n cynyddu'n raddol
- dilyn rheolau syml

A allwch chi weld y plentyn?

- Yn neidio dros bellterau sy'n cynyddu'n raddol?
- Yn dilyn rheolau syml?

gan amlaf

weithiau

Anogwch y plentyn i:

- dynnu llun ei 'afon' ei hun â sialc
- cyfrif sawl naid sydd eu hangen arno i neidio dros yr afon, a cheisio lleihau'r nifer
- rhedeg a neidio
- ymarfer neidio gan ddefnyddio'r Cardiau Sgiliau Technegol
- cofnodi ei neidiau mewn camau bach iawn neu gamau enfawr

Anogwch y plentyn i:

- osod ei dargedau ei hun ar gyfer neidio
- creu ei system sgorio ei hun
- creu taith ddychmygol sy'n cynnwys llawer o bethau i neidio drostynt, fel yn 'Super Mario', y cymeriad gêm fideo

Cyfleoedd campus

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol: Datblygiad cymdeithasol – deall bod rheolau'n hanfodol mewn cymuned drefnus, dysgu cymryd eu tro, deall yr hyn sy'n deg ac yn annheg
- Datblygiad Mathemategol: Amcangyfrif maint mesur; mesur gan ddefnyddio mesurau safonol ac ansafonol, datblygu sgiliau map